# Fflint yr Ifanc 2024 Crynodeb Peilot

**Mae Fflint yr Ifanc yn fenter sylweddol sy'n hyrwyddo ymrymuso ac ymgysylltiad ystyrlon ieuenctid o fewn y gymuned leol.**

Nod y model Fflint yr Ifanc yw cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y bobl ifanc sy'n cyfranogi.

Bydd yn bwydo yn uniongyrchol i y Cyngor, gan sicrhau bod lleisiau dysgwyr ysgol uwchradd yn cael eu cynrychioli yn uniongyrchol i brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Ym Mehefin 2024, gwahoddwyd dau ddysgwr o bob Cyngor Ysgol Uwchradd a chynrychiolwyr o Gyngor yr Ifanc i Neuadd y Sir, i archwilio'r canfyddiadau allweddol o Ymgynghoriad y Gwanwyn '3 Mater' pobl ifanc. Yna, cawsant y dasg o gynnal ymgynghoriad o fewn eu hysgolion a lleoliadau cymunedol ar:




- Iechyd meddwl a lles
- Ysgol ac addysg
- Cymuned - amwynderau a diogelwch

## Nodau Fflint yr Ifanc:

- **Gwrando ar lais pobl ifanc a siarad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.**
- **Cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at weithgorau a phrosiectau eraill a gynhelir gan y Cyngor.**
- **Ymwybyddiaeth o sut mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio ac addysgu ynglŷn â democratiaeth i bobl ifanc a chymunedau.**

## Dull Sir y Fflint yr Ifanc:




Cadeiriodd y Cynghorydd Mared Eastwood gyfarfod dilynol ym mis Gorffennaf 2024 gyda'r dysgwyr a swyddogion dirprwyedig o'r awdurdod lleol, i rannu eu hymatebion, mentrau a gwybodaeth berthnasol arall o ran y materion a amlinellwyd yn yr adroddiadau.

## Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn ystod y cyfarfod yn cynnwys:

- Mae nyrsys ysgol ar gael mewn ffyrdd gwahanol mewn ysgolion gwahanol. Roedd pobl ifanc yn teimlo byddai'n well gael dull cyson ar draws ysgolion ac y dylai pawb gael mynediad at nyrs ysgol.
- Mae nifer o bethau mewn lle i helpu pobl ifanc 0-18 oed a'u teuluoedd gydag iechyd meddwl a lles. Cyflwynodd Swyddogion o'r Gwasanaethau Cymdeithasol wybodaeth ar yr ystod o gefnogaeth mewn lle ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd.
- Roedd y bobl ifanc yn gweld Diogelu Cyd-destunol, a amlygwyd gan y swyddogion Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ddiddorol iawn, a sut all adrodd ar arsylwadau cymunedol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy staff yr ysgol, oedolion a'r heddlu, helpu i lywio'r broses.
- Nid oedd mwyafrif y bobl ifanc yn ymwybodol nad yw Cyngor Sir y Fflint yn goruchwylio pob eitem ac ardal gymunedol. Neges i'w gofio oedd y dylem adrodd i'r Gwasanaethau Stryd am bethau sydd angen cael eu sylw - a fydd yn rhoi gwybod i'r timoedd perthnasol i ddatrys yr adroddiad.
- Roedd golwg fanwl gyda phobl ifanc yn awgrymu y byddai mwy o finiau a sesiynau codi sbwriel yn datrys y broblem o sbwriel a baw cŵn. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o brosiectau lle rhoddwyd mwy o finiau a phosteri yn dangos dim effaith. Mae'n gyfrifoldeb arnom oll i roi sbwriel yn y bin ac i berchnogion cŵn roi baw cŵn yn y bin.


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.
Cysylltwch â **Healthyschools@flintshire.gov.uk** i gael fersiwn Gymraeg
This document is available in Welsh.
Please contact **Healthyschools@flintshire.gov.uk** for a Welsh version


www.Siryfflint.gov.uk
Facebook.com/CSyFflint
@CSyFflint

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

## Canlyniadau Peilot :

Roedd y rhaglen beilot yn dod a phobl ifanc ynghyd o ysgolion a chymunedau, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a rennir.

Fe wnaeth hyn feithrin synnwyr cryf o berthyn a gwell dealltwriaeth o brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Er nad oedd y peilot wedi para'n hir, adeiladodd y cyfranogwyr berthnasau ystyrlon gan ennill hyder ar draws lleoliadau gwahanol.

Yn dilyn llwyddiant y peilot, bydd cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol sydd wedi'u henwebu fel Disgybl Lywodraethwyr Cyswllt yn cael eu gwahodd o bob ysgolion uwchradd (gan gynnwys darpariaeth arbenigol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) i fod yn aelodau o Fflint yr Ifanc o mis Medi 2024.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol cyfreithiol sy'n amlinellu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn, waeth beth yw eu hil, crefydd neu alluoedd.

Mae Model Cyfranogi Fflint yr Ifanc yn cefnogi holl erthyglau yn yr CCUHP, yn benodol Erthygl 12, sy'n nodi fod gan bobl ifanc yr hawl i fynegi eu safbwyntiau ar faterion sy'n eu heffeithio, ac i'r safbwyntiau hynny gael eu hystyried.


## Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Mae Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yng Nghymru yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn datblygu cyfranogiad ystyrlon gan ieuenctid. Mae'r safonau hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles
Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

## Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint

Mae Cyngor yr Ifanc Sir y Fflint, a gydlynir gan y Gwasanaeth Ieuenctid, wedi bod yn gweithredu ers nifer o flynyddoedd. Mae holl bobl ifanc yn gymwys i ddod yn aelodau o Cyngor yr Ifanc. O mis Medi 2024, bydd cynrychiolwyr o Gyngor yr Ifanc yn cael eu gwahodd i ymuno â Fflint yr Ifanc, ar y cyd â chynrychiolwyr o Gynghorau Ysgol.




**Dylai preswylwyr Sir y Fflint sy'n 11-25 oed ac â diddordeb mewn ymuno â Chyngor yr Ifanc, gyfeirio at y Cod QR i gael mwy o wybodaeth**